
Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â phrosesu casglu gorchmynion ariannol a godir gan lysoedd a thriwlynlysoedd. Mae'n cynnwys paratoi a chyhoeddi gorchmynion talu a monitro amserlenni talu, gan weithredu i fynd i'r afael ag achosion lle mae diffyg yn y taliadau sy'n ddyledus.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi manylion am orchmynion ariannol a osodir gan lysoedd a thribiwnlysoedd, yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys:
 - 1.1 cyfansymiau
 - 1.2 amserlenni talu cytûn
 - 1.3 y rheiny y mae'n ofynnol iddynt dalu cosbau ariannol
 - 1.4 ble dylid gwneud taliadau
2. paratoi hysbysiadau talu, yn unol â gofynion sefydliadol
3. prosesu gorchmynion ariannol, yn unol â gofynion sefydliadol
4. cyhoeddi dogfennau gorchmynion ariannol, yn unol â gofynion sefydliadol
5. monitro'r taliadau a wnaed yn erbyn amserlenni, yn unol â gofynion sefydliadol
6. nodi achosion o dalu'n hwyr a diffyg talu, yn unol â gofynion sefydliadol
7. cofnodi achosion o dalu'n hwyr a diffyg talu, yn unol â gofynion sefydliadol
8. mynd i'r afael ag achosion o dalu'n hwyr a diffyg talu, yn unol â gofynion sefydliadol
9. cyfeirio pobl sy'n talu'n hwyr a phobl nad ydynt yn talu at awdurdodau, yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys:
 - 9.1 eich argymhellion rhesymedig ynglŷn â pha gamau y dylid eu cymryd
10. cyfeirio ceisiadau am ymestyn amserlenni talu i awdurdodau, yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys:
 - 10.1 eich argymhelliad rhesymedig ynglŷn â'r camau y dylid eu cymryd
11. hysbysu ymgeiswyr am ganlyniadau ceisiadau i ymestyn amserlenni talu, yn unol â gofynion sefydliadol
12. cynnal cofnodion taliadau, yn unol â gofynion sefydliadol
13. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. gofynion, gweithdrefnau a phrotocolau sefydliadol presennol sy'n ymwneud â gweinyddu casglu gorchmynion ariannol
2. gofynion, gweithdrefnau a phrotocolau sefydliadol presennol sy'n ymwneud â chyhoeddi gorchmynion ariannol
3. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag achosion o dalu gorchmynion ariannol yn hwyr a pheidio â'u talu
4. pwysigrwydd monitro taliadau a wnaed yn erbyn amserlenni, a sut i wneud hyn
5. pwysigrwydd diweddarau a chynnal cofnodion yn gywir
6. terfynau eich awdurdod, ac at bwy i gyfeirio pan eir y tu hwnt i derfynau

SFJDG3

Gweinyddu casglu gorchmynion ariannol a osodir gan lysoedd a thriwlynlysoedd



Datblygwyd gan	Skills for Justice
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2018
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Chwef 2023
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Sgiliau er Cyfiawnder
RCU gwreiddiol	SFJ DG3
Galwedigaethau perthnasol	Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys
Cyfes/Set	Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau
Geiriau Allweddol	llys; triwlynlys; achos; ariannol; cyllid; ardoll; ardoll a osodir; gweinyddu; casglu; taliad; gorchymyn talu; amserlen; diffyg
